

Gŵyl Afon a Bwyd Aberteifi - Telerau ac Amodau

Y Neuadd Fwyd

Dylid lleoli arddangoswyr sy'n gwerthu bwyd neu ddiod i'w fwyta neu ei yfed ar safle'r wyl oddi mewn i'r Neuadd Fwyd, e.e. bwydydd poeth parod, hufen iâ, te a choffi a diodydd alcoholig. Mae ardal eistedd dan gynfas gerllaw sy'n galluogi'r cwsmeriaid i eistedd a mwynhau eu bwyd a'u diod mewn lle cyfforddus.

Y Farchnad Fwyd

Dylid lleoli arddangoswyr sy'n gwerthu bwyd neu ddiod, i'w fwyta neu ei yfed oddi ar safle'r wyl yn bennaf, oddi mewn i'r Farchnad Fwyd, e.e. caws, cigoedd ffres, cyffeithiau, gwin potel a gwirodydd.

Stondinau

2.5 m lled x 1.8 m dyfnder yw mesuriadau stondin a bydd iddo ganopi a bwrdd sy'n mesur 1.8 m lled x 0.6 dyfnder.

Llain ar fesur: Codir tâl fesul metr rhedeg yn achos blaen y llain am unrhyw ofyniad am lain ar fesur. Os yw hyn yn cynnwys cerbyd neu drelar, yna rhaid nodi'r hyd o ben i ben (gan gynnwys bar tynnu, drysau ochr neu gefn ar agor etc). Bydd dyfnder llain o'r fath yn ddim mwy na 3m. Nodwch, os gwelwch yn dda wrth fwcio eich stondin neu lain, fod hyn ar gyfer yr arddangosiad cyfan, i gynnwys byrddau a mynediad. Cofiwch adael lle ar gyfer eiddo personol a stoc, os gwelwch yn dda.

Cansladau

Bydd arddangosydd sy'n canslo bwciad, am ba bynnag reswm yn methu bod yn bresennol, yn ffforfedu'r holl ffioedd a dalwyd ac mae swyddfa'r wyl yn cadw'r hawl i ail-osod y cyfryw safleoedd. Ni roddir unrhyw ad-daliad oherwydd tywydd anffafriol neu gyflwr gwael y tir. Ni roddir unrhyw ad-daliadau os na ellir cynnal yr wyl am unrhyw reswm y tu hwnt i reolaeth y trefnwyr.

Gosod a Datgysylltu Arddangosion

Hysbysir yr arddangoswyr mai rhwng 7.00yb - 9.30yb yw'r amser gosod. Gwnewch yn siŵr, os gwelwch yn dda, nad yw eich stondin arddangos yn ymestyn y tu hwnt i'r arwynebedd a fwcwyd gennych. Gellir datgysylltu arddangosion ar ôl 5.00yp ar y dydd Sadwrn. Dylai pob arddangosydd aros ar y safle yn ystod yr oriau agor.

Parcio ar gyfer Arddangoswyr

Rhaid i bob cerbyd fod oddi ar y safle erbyn 9.30yb ac ni fydd modd i'r cerbyd ddychwelyd i'r safle tan ar ôl 5.00yp ar y dydd Sadwrn. Bydd Marsialyddion yn rhoi cyfarwyddiadau i fannau parcio priodol a bydd gwasanaeth parcio a theithio yn gweithredu lle cewch barcio eich cerbyd.

Diogelwch, Trwyddedu ac Atebolrwydd Cyhoeddus ayyb

Bydd pob arddangosydd yn dod i mewn ar eu mentro eu hunain.

Dylai pob arddangosydd sicrhau eu bod wedi’u hyswiri o’n ddigonol ar ddiwrnod yr wyl ar gyfer Atebolrwydd Cyhoeddus, Cynnyrch a Chyflogedigion a dylid anfon copi o'r ddogfen berthnasol gyda'i ffurflen gais.

Rhaid i bob arddangosydd sicrhau bod ganddynt y drwydded(trwyddedau) angenrheidiol i allu cynnal eu busnes yn gyfreithiol ar y diwrnod. Yn achos gwerthwyr alcohol, bydd gan yr wyl ei Thrwydded Adeilad ei hun fydd wedi'i darparu gan yr awdurdod lleol. Felly, gordreth alcohol yn unig sydd angen i chi ei thalu gyda’ch cais. Rhaid i bob deiliad stondin sy’n gwerthu alcohol arwyddo ein Cytundeb Masnachwyr Alcohol ac ni fyddwn yn rhoi caniatâd i arddangosydd werthu alcohol os na fydd y cytundeb hwn wedi ei lofnodi. Disgwyliwn i bob gwerthwr alcohol arddangos posterï Her 21/Challenge 21 a byddwn yn eu rhoi i'r stondinwyr ar y diwrnod. At hyn, mae'n well gennym, ac rydym yn argymell yn gryf, y dylai stondinau sy'n gwerthu alcohol fod yn cael eu harolygu gan ddeiliad trwydded bersonol. Efallai y bydd angen trwyddedau/hawlenni eraill arnoch. Eich cyfrifoldeb chi yw'r rhain. Rhaid i chi sicrhau bod copïau o'r holl drwyddedau/hawlenni perthnasol ar gael i'r trefnwyr gyda’ch ffurflen gais.

Iechyd a Diogelwch

Mae cyfrifoldeb ar bob arddangosydd i sicrhau eu hiechyd, diogelwch a'u lles hwy eu hunain ac eraill. Ni all unrhyw arddangosydd neu ei staff/asiantau neu aelod o'r cyhoedd ddal y trefnwyr yn gyfrifol am unrhyw niwed neu golled oherwydd esgeulustod neu arddangosfeydd anniogel. Disgwylir i bob arddangosydd fod wedi cynnal asesiad o'r peryglon posib sy'n gysylltiedig â'u gweithgareddau. Dylech anfon copi o hwn gyda’ch ffurflen gais, os gwelwch yn dda.

Ni fydd y trefnwyr yn gyfrifol am unrhyw golled neu niwed i stoc neu gyfarpar, sut bynnag y digwydd hynny, yn ystod yr wyl.

Cyfarpar Diogelwch Tân

Rhaid i'r arddangoswyr ddarparu'r cyfarpar diogelwch tân sy'n briodol i'w gweithgareddau. Yn arbennig felly, rhaid bod gan bob arddangosydd sy'n coginio ar y safle gyfarpar digonol ar gyfer ymladd tân, gan gynnwys blancedi tân.

Iechyd Amgylcheddol a Safonau Masnach

Dylai cynhyrchwyr bwyd sicrhau eu bod wedi cofrestru gyda’u hawdurdod lleol cyn yr wyl. Gall y cynhyrchwyr hynny oddi mewn i sir Ceredigion gysylltu â Chyngor Sir Ceredigion ar 01545 572105. Dylai cynhyrchwyr bwyd o’r tu allan i Geredigion gysylltu’n uniongyrchol â'u hawdurdod lleol eu hunain.

Llosgiwr

Disgwylir i'r arddangoswyr gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol Cyngor Sir Ceredigion o safbwynt Safonau Masnach, Iechyd a Diogelwch ac Iechyd Amgylcheddol. Gellir archwilio'r stondinau a chaiff y rhai hynny y tybir nad ydynt yn cydymffurfio â rheoliadau perthnasol eu cau.

Llosgiwr

Dylai cynhyrchwyr bwyd sicrhau fod ganddynt system ddigonol mewn perthynas â rheoli diogelwch bwyd, gan sicrhau fod y bwyd sy'n cael ei baratoi a'i werthu ganddynt yn ddiogel i'w fwyta. Anfonwch gopiau o'ch cynllun rheoli diogelwch bwyd atom gyda’ch ffurflen gais, os gwelwch yn dda.

Llosgiwr

Mae gwybodaeth bellach am reoliadau bwyd, iechyd amgylcheddol ac iechyd a diogelwch ar gael ar wefan Cyngor Sir Ceredigion, **www.ceredigion.gov.uk**

Llosgiwr

Cyfrifoldeb yr arddangosydd yw dŵr yfed a dŵr coginio ac rydym yn argymell eich bod yn dod â'ch ffynhonnell bersonol o ddŵr yfed gyda chi.

Gwared Gwastraff

Disgwylir i'r stondinwyr gadw'r ardaloedd o'u cwpas mor lân â phosib drwy gydol yr ŵyl. Darperir cyfleusterau ar gyfer gwared gwastraff ac ailgylchu ar y safle. Lle bo hynny'n briodol, dylid cymryd rhagofalon digonol i atal gollwng olew/hylif drwy osod hambyrddau dan bob cerbyd. Darperir cyfleusterau ar gyfer gwared sbwriel ac ailgylchu ar y safle. Er hynny, cyfrifoldeb yr arddangoswyr yw gwared unrhyw ddŵr brwnt, ac argymhellwn eich bod yn mynd â hwn gyda chi mewn cynhwysydd dan sêl ac yn ei wacáu i system ddraenio addas ar gyfer dŵr brwnt.

Trydan

Mae Cyflenwad Trydan yn cynnwys un x soced domestig safonol 13 Amp 240 folt a dylid talu am hwn ar eich ffurflen gais.

Yr arddangosydd sy'n gyfrifol am unrhyw lidiau estyn os oes eu hangen (o uned y cyflenwad) ac nid yw'r rhain at gael oddi wrth y trefnwyr.

Cyfarpar

Gall arddangoswyr ddod â'u generaduron eu hunain ar y safle, cyhyd â'u bod yn eneraduron disel distaw a bod yr arddangoswyr yn dod â chyfarpar addas ar gyfer ymladd tân.

Rhaid i bob teclyn trydanol fod wedi ei ardystio a dylai fod tystysgrif PAT cyfredol ar ei gyfer. Rhaid i'r dystysgrif hon fod ar gael i'w harchwilio gan ein trydanwr yn yr ŵyl. Nodwch, os gwelwch yn dda, na ellir, ar unrhyw gyfrif, defnyddio cyfarpar sydd heb gael prawf PAT. Rhaid bod tystysgrif nwy cyfredol, wedi ei roi gan beiriannydd nwy cofrestredig, ar gael ar gyfer pob teclyn nwy. Byddwch mor garedig ag anfon ymlaen gopïau o'ch tystysgrif(au) PAT a / neu nwy gyda’ch ffurflen gais.

Tocynnau Bwyd

Rhoddir tocynnau bwyd a diod i weithwyr gwirfoddol. Gellir eu cyfnewid am eu gwerth enwol yn swyddfa'r wyl ar ddiwedd y dydd. Dylid eu trin fel "arian" a rhoddir newid lle bo gwerth yr hyn a brynwyd yn is na gwerth enwol y tocyn.

Eitemau Tafiadwy

Rydym yn argymell y dylai pob cynhwysydd bwyd, deunydd pacio, platiau a chyllyll a ffyrc ayyb fod wedi eu gwneud o ddefnyddiau bionddiraddadwy fel papur a phren. Dylai cynhwysyddion diodydd fod yn rhai y gellir eu hailgylchu ac mae'n well gennym blastig y gellir ei ailgylchu yn hytrach na phlastig bionddiraddadwy. Os bydd y cynhwysyddion diodydd a defnyddir yn rhai bionddiraddadwy, yna dylent fod wedi eu marcio'n glir. Rydym yn argymell yn bendant na ddylid defnyddio polystyren ac unrhyw ddefnyddiau eraill na ellir eu hailgylchu.

Llosgiwr

Nid yw cyflwyno cais yn gwarantu lle yn yr ŵyl. Gall hyn fod am nifer o resymau (e.e. gormod o stondinau tebyg neu'n anaddas ar gyfer yr ŵyl). Swyddfa'r wyl fydd â'r penderfyniad terfynol ym mhob achos. Os bydd eich cais yn aflwyddiannus byddwn yn gwneud ad-daliad. Rhaid talu ymlaen llaw am bob gofod. Ni dderbynnir unrhyw daliadau neu fynediad ar y diwrnod. Lle bo hynny'n bosib, bydd swyddfa'r wyl yn gwahanu cynhyrchion tebyg sy'n cael eu cynnig ar werth, ond ceidw'r hawl i roi amrywiaeth a dewis i'r cyhoedd. Bydd swyddfa'r wyl yn gwneud ymdrech resymol i fodloni ceisiadau am neilltuo safle penodol ond am resymau gweithredol ni ellir gwarantu hyn.

Llosgiwr

Rydym hefyd yn annog ceisiadau gan fân-werthwyr sydd heb fod yn gwerthu bwyd.